OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 924

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011

## RHAN 1

Darpariaethau rhagarweiniol

**Dehongli**

**3.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae i "hysbysiad o fwriad" ("*notice of intent*")—

(a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 5(1);

(b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 14(1);

mae i "hysbysiad terfynol" ("*final notice*")—

(a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 8(3);

(b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 17(4);

ystyr "sancsiwn sifil" ("*civil sanction*") yw cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol newidiol(**1**).

(**1**) *Gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffinad o'r termau hyn.